

Archwilio Rheoleiddiol

Rhan o'n swydd ni yw gwerthuso pa mor effeithiol yw'r system rheolaethau swyddogol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. I wneud hyn, rydym yn cynllunio ac yn cynnal rhaglenni archwilio ym mhob gwlad.

Mae'r rheolaethau swyddogol a archwilir yn cwmpasu ystod amrywiol o weithgareddau o gynhyrchu cynradd ar ffermydd, wyau, llaeth, lladd-dai, ffatrïoedd torri, bwyd anifeiliaid, pysgod cregyn a chynhyrchion pysgodfeydd, yn ogystal â'r sector manwerthu fel archfarchnadoedd, cigyddion, bwytai.

Caiff y system rheolaethau swyddogol ei gweithredu gan swyddogion gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid mewn awdurdodau cymwys gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd, yr ASB ei hun, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gontractau neu gytundebau lefel gwasanaeth gyda sefydliadau eraill fel yr Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon.

Archwiliadau â Ffocws a rennir

Mae archwiliadau â ffocws yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar waith gorfodi awdurdodau lleol.

[Asesiad Sicrwydd Cynllun Adfer Awdurdodau Lleol: Y prif ganfddiadau \(Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon\) Chwefror 2023](#)